Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 74/2024
DYDDIAD CYHOEDDI: 17/10/2024

# Cyfranogiad tenantiaid: adolygiad o'r dystiolaeth

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83625-727-1**

Cyfranogiad tenantiaid: adolygiad o’r dystiolaeth

Awdur: Becca McEwan

Adroddiad Ymchwil Llawn: Becca McEwan (2024). Cyfranogiad Tenantiaid: Adolygiad o’r dystiolaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 74/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-tenantiaid-adolygiad-or-dystiolaeth

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru, o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Tîm Ymchwil Tai
Adran: SRID
Llywodraeth Cymru
Parc CathaysCaerdydd
CF10 3NQ
Ebost: YTimYmchwilTai@llyw.cymru

## Tabl o gynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir ....... 3
2. Methodoleg ....... 4
3. Tystiolaeth ryngwladol ....... 5
4. Tystiolaeth y DU ....... 9
5. Tystiolaeth Cymru ....... 22
6. Casgliadau ....... 26
7. Cyfeiriadau ....... 28
8. Atodiad A ....... 31
9. Atodiad B ....... 39

**Rhestr termau**

Testun geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| SRhP | Sector Rhentu Preifat |
| STC | Sector Tai Cymdeithasol |
| TPAS | Gwasanaeth Cynghori Cyfranogiad Tenantiaid |
| SCT | System Cyfranogiad Tenantiaid |
| CTC | Cyrff Tai Cymeradwy |
| RhTA | Rheoleiddiwr Tai yr Alban |
| Uned Tai Cymunedol | **Unedau tai cymunedol** yw opsiynau tai sy'n darparu **rhenti wedi'u cymorthdalu neu renti pen isel y farchnad**. |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Cafodd y Tîm Ymchwil Tai yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ei gomisiynu gan y Tîm Polisi Tai i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ar gyfranogiad tenantiaid yn y sector rhentu preifat (SRhP) a'r sector tai cymdeithasol (STC). Ffocws yr adolygiad oedd nodi gwahanol ddulliau ymgysylltu, eu heffeithiolrwydd, a hwyluswyr a rhwystrau rhag ymgysylltu. Cynhaliwyd y chwiliadau llenyddiaeth gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru. Paratowyd yr adolygiad hwn o'r canlyniadau trwy ddefnyddio'r dystiolaeth a nodwyd o'r chwiliadau llenyddiaeth.

## Nodau ac amcanion

1.2 Nod yr adolygiad hwn o dystiolaeth oedd nodi pa ddulliau o gyfranogiad tenantiaid sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, a lle bo'n bosibl, rhoi gwybod am effeithiolrwydd y dulliau. Ar ben hynny, roedd yn ceisio pennu ffactorau a allai hwyluso neu rwystro cyfranogiad tenantiaid. Er ei bod yn bwysig ystyried y gwahaniaeth ym mhrofiadau tenantiaid y sector rhentu preifat a thenantiaid yn y sector tai cymdeithasol, nid oedd llawer o'r llenyddiaeth a ddarparwyd yn nodi pa denantiaid yr oeddent yn eu trafod. Felly, nid yw hwn yn faes sydd wedi'i dynnu allan yn yr adolygiad hwn o dystiolaeth, ond mae'n rhywbeth y dylid ei ystyried yn y dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar chwiliad llenyddiaeth a wnaed gan Wasanaethau Llyfrgell Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y chwiliadau rhwng 17/05/2023 a 09/06/2023. Rhoddir y tabl canlyniadau a ddarparwyd o'r chwiliad yn Atodiad A a chyflwynir manylion am y strategaethau chwilio penodol yn Atodiad B. Defnyddiodd yr adolygiad fethodoleg meta-ddadansoddiad [1]i adolygu'r ffynonellau a chrynhoi'r canfyddiadau. Casglodd y gwasanaethau llyfrgell ymchwil o'r mathau canlynol o ffynonellau: adnoddau arweiniad, adroddiadau, erthyglau cyfnodolion, strategaethau a thraethodau. Cynhwyswyd tystiolaeth os oedd o ansawdd digonol yn unol â safonau ymchwil cymdeithasol ac os oedd ar gael i'r cyhoedd. Manylir ar dermau chwilio a meini prawf cynnwys yr adolygiad o dystiolaeth yn Atodiad A.

2.2 Mae'r papurau rhyngwladol (11) wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhoi cipolwg defnyddiol ar y pwnc; fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth gymhwyso'r rhain i gyd-destun Cymru, gan y gall dylanwadau amrywio rhwng gwledydd sydd â chyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol gwahanol. Cyfyngwyd yr oedran cyhoeddi i 10 mlynedd, gyda mwyafrif yr adnoddau'n dyddio o 2017 i 2023 (52 allan o 61).

2.3 Cynhyrchwyd 61 o ganlyniadau o'r chwilio, ond dim ond 40 o'r rhain sydd wedi'u hystyried yn yr adolygiad hwn. Nid oedd y rhai sydd heb eu cynnwys yn ymwneud â dulliau ymgysylltu â thenantiaid na chyd-destun Cymru, neu nid oeddent ar gael rhagor.

[1] Archwiliad o ddata o nifer o astudiaethau annibynnol o'r un pwnc, er mwyn pennu tueddiadau cyffredinol.

# 3. Tystiolaeth ryngwladol

## Effaith ehangach

3.1 Roedd 11 o'r papurau yn darparu tystiolaeth ryngwladol. O'r rhain, nodwyd bod chwech yn darparu tystiolaeth berthnasol a defnyddiol. Un thema allweddol a ddaeth i'r amlwg ynghylch yr effaith ehangach y gall cyfranogiad tenantiaid ei chael oedd cynnydd yn y tenantiaid sy'n teimlo eu bod yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r wleidyddiaeth a'r fiwrocratiaeth sy'n ymwneud â thai yn eu cymuned a’r tu hwnt, a dylanwadu arnynt (Foroughi 2013; Suszyńska 2015). Arweiniodd hyn hefyd at denantiaid yn cael gwell dealltwriaeth o'r broses gyllidebu, gan ganiatáu iddynt ymgeisio am y cyllid priodol ar gyfer anghenion eu cymuned (Foroughi 2013).

3.2 Ystyriwyd hefyd fod effeithlonrwydd cost ymhlith buddion ehangach ymgysylltu â thenantiaid, yn enwedig pan fabwysiadwyd dull hunanreoli neu gydreoli. Mae'r dull hwn yn golygu bod tenantiaid yn cymryd rhan weithredol mewn rheoli tai yn eu cymuned, gan gynnwys gweithgareddau fel cynnal a chadw ac adnewyddu (Suszyńska 2015; Huisman, C; Czischke, D 2023). Yn ogystal â thorri costau, mae hyn yn datblygu ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith y tenantiaid (Stenberg 2018).

3.3 Mewn enghraifft o'r Iseldiroedd, ystyriwyd bod hunanreolaeth yn arwydd o 'gymdeithas cyfranogi', lle mae tenantiaid yn cael eu cymell a'u cefnogi i wneud pethau dros eu cymunedau ar eu pen eu hunain (Costarelli et al 2020). Yn ogystal â chostau is, roedd dulliau cydreoli o gyfranogiad tenantiaid yn esgor ar fwy o foddhad ymhlith preswylwyr, mwy o ofal o ran glendid ystadau tai, a gostyngiad yn nifer y fflatiau gwag (Suszyńska 2015).

## Rhwystrau a heriau

3.4 Teimlwyd mai’r prif rwystr rhag cyfranogiad tenantiaid llwyddiannus oedd agweddau perchenogion eiddo, rheolwyr adeiladu a staff rheng flaen (Suszyńska 2015; Foroughi 2017). Roedd hyn yn cynnwys peidio â chymryd tenantiaid o ddifrif fel partneriaid dilys wrth wneud penderfyniadau, yn ogystal â diffyg ymdrech o ran trefnu cyfarfodydd neu geisio integreiddio a chynnull tenantiaid (Foroughi 2017; Suszyńska 2015) ). Yn aml, cyfrifoldeb darparwyr tai yw gosod agenda'r hyn sydd i'w drafod, a pha faterion y maent yn eu cyflwyno fel rhai y gellir eu datrys, ond dadleuir, er mwyn i gyfranogiad

tenantiaid gael effaith ystyrlon, fod angen rhoi pŵer i'r tenantiaid wneud penderfyniadau (Huisman, Czischke 2023).

3.5 Mae hyn yn arwain at ail rwystr rhag cyfranogiad tenantiaid, sef adnodd tenantiaid. Yn aml, nid oes gan denantiaid yr amser i drefnu gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid, ac yna cymryd rhan ynddynt, gan y gallant lyncu llawer o amser yn aml. Efallai y byddant hefyd yn brin o wybodaeth am faterion tai penodol, y mae gweithwyr proffesiynol yn meddu arni (Huisman, Czischke 2023).

3.6 Yn olaf, roedd pryder ynghylch cysyniad gwirioneddol cyfranogiad tenantiaid, a'r gwahanol syniadau sydd gan bobl amdano. Dadleuwyd bod y diffyg eglurder hwn yn effeithio ar gydlyniad a chanlyniad cyfranogiad tenantiaid, ac yn rhwystro ei dwf (Foroughi, 2017)

### Gweithgareddau

3.7 Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a ddangoswyd yn y dystiolaeth ryngwladol. Fel yr amlinellwyd uchod, roedd hunanreolaeth yn fath cyffredin o gyfranogiad tenantiaid, gan gynnwys tenantiaid yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am y gweithgareddau rheoli dyddiol, er enghraifft, fel rhan o'r tîm tiroedd. Yn ogystal â'r rolau mwy ymarferol hyn, un elfen fawr o hunanreolaeth oedd tenantiaid yn helpu i feithrin perthnasoedd yn eu cymuned, a chefnogi'r tenantiaid mwyaf agored i niwed (Costarelli et al 2020; Huisman, Czischke 2023). Gellir ystyried bod y dull hwn o gyfranogiad tenantiaid yn llawer mwy hygyrch, oherwydd y prosiectau llai heriol, ymreolaethol y gall tenantiaid gymryd rhan ynddynt o gwmpas eu rhwymedigaethau eraill, sydd hefyd yn rhoi iawndal ariannol iddynt, mwy o ddylanwad, a chyfle i ennill mwy o wybodaeth am dai (Huisman, Czischke 2023).

3.8 Mae astudiaeth benodol o Dai Cymunedol yn Toronto yn amlinellu arfer a noddir gan y wladwriaeth o reoli tai cymunedol cyfranogol. Mae'r System Cyfranogiad Tenantiaid (SCT) yn gweithio yn y ffordd ganlynol; sefydlir cyngor tenantiaid ym mhob uned tai cymunedol, maent yn gweithio gyda'r rheolwr tai i ddatblygu cynlluniau busnes lleol a dyrannu adnoddau. Mae pob cyngor hefyd yn datblygu fframwaith atebolrwydd i denantiaid gadw'r cyngor yn atebol i benderfyniadau a materion y mae angen mynd i'r afael â nhw (Foroughi 2013). Yn rhan o'r SCT, mae cynghorau tenantiaid hefyd yn ymwneud â dyrannu cyllideb ar lefel uned tai cymunedol, yn ogystal â ledled y ddinas,

gan ganiatáu iddynt ddylanwadu ar flaenoriaethau cyllido a dyrannu arian i'r meysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau tenantiaid (Foroughi 2013). Mae'r broses gyllidebu gyfranogol yn gweithio fesul cam. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys gweithdai i nodi materion a blaenoriaethau ar gyfer pob cyfadeilad tai, a gynhelir gan gynrychiolwyr tenantiaid ac arweinwyr preswyl. Yr ail gam wedyn yw bod y cynrychiolwyr tenantiaid yn graddio blaenoriaethau ac yn penderfynu pa brosiectau fydd yn cael eu codi yn y cyfarfod dyrannu. Yna, mae trigolion yn gyfrifol am ddewis un cynrychiolydd pleidleisio i gynrychioli eu cymuned yn y cyfarfod dyrannu, lle cyflwynir y cynigion, gan amlinellu costau, effeithiau iechyd cymunedol a natur frys. Yna, mae'r cynrychiolwyr yn pleidleisio dros y prosiectau sy'n cael cyllid.

3.9 Yn ogystal â'r lefel fwy ffurfiol hon o gyfranogiad tenantiaid, mae'r SCT yn rhoi cyfleoedd eraill i denantiaid, staff a rhanddeiliaid cymunedol eraill ryngweithio, gan gynnwys:

- Cymdeithasu anffurfiol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyngor tenantiaid;
- Sesiynau anffurfiol tenantiaid lle mae cynrychiolwyr yn dod at ei gilydd o bryd i'w gilydd ar eu menter eu hunain i fynd ar daith o amgylch y gymdogaeth a thrafod pryderon lleol, yn ogystal â gwella eu gwybodaeth am adeiladau neu gymunedau eraill;
- Fforymau tenantiaid lle mae cynrychiolwyr o bob cwr o'r ddinas yn dod at ei gilydd, yn mynychu gweithdai, yn cyfnewid syniadau, ac yn cymdeithasu; a
- Rhyngweithio un wrth un ag awdurdodau a rhanddeiliaid eraill. (Foroughi, 2013)

3.10 Roedd tystiolaeth ryngwladol arall yn darparu enghreifftiau tebyg o weithgareddau cyfranogiad tenantiaid, gan gynnwys cynrychiolwyr etholedig preswyl ar gyfer undebau tenantiaid, a grŵp ymgynghori, wedi'i ethol a'i weithredu gan denantiaid (Stenberg 2018). Ceir cyfranogiad ffurfiol fel hyn ar wahanol lefelau yn yr Iseldiroedd. Ar y lefel isaf, y cartref unigol, nid yw hawliau cyfranogiad tenantiaid yn tueddu i fynd y tu hwnt i gynlluniau landlordiaid ar gyfer dymchwel neu ôl-osod. Ar y lefel nesaf, gall tenantiaid ffurfio pwyllgor preswylwyr. A hwythau'n bwyllgor preswylwyr, gallant gael hawliau ffurfiol ynghylch llywodraethu'r bloc, gan gynnwys cael gwybod am gynnal a chadw a

chynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'r hawl i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r landlord a'r hawl i gynghori. Ar lefel drefol, mae gan sefydliadau tenantiaid yr hawl i gael gwybodaeth a chyngor am bolisïau a chynlluniau'r gorfforaeth dai, megis prisiau rhent a pholisïau dyrannu a chynlluniau ar gyfer adeiladu, dymchwel, prynu neu werthu stoc (Huisman, Czischke 2023).

## 4. Tystiolaeth y DU

4.1 Mae'r dystiolaeth yn yr adran hon yn ymwneud â Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Bydd tystiolaeth o Gymru yn cael ei hystyried ar ei phen ei hun yn ddiweddarach.

### Effeithiau ehangach

4.2 Roedd yr effeithiau ehangach a gyflwynwyd yn y dystiolaeth o'r DU yn perthyn i'r un categorïau eang â'r rhai o'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol; gwahaniaeth personol i denantiaid, mwy o allu i ddylanwadu, ac effeithlonrwydd cost.

4.3 Mae gwahaniaeth personol i breswylwyr yn cynnwys gwelliannau unigol a chymunedol. Ystyriwyd bod cyfranogiad tenantiaid yn sbarduno datblygu cymunedol, gan alluogi preswylwyr i gwrdd â chymdogion a mynd i'r afael ag unigedd (yr Adran Ffyniant Bro 2022; Tunstall et al 2011; Frey a Shanks 2022). Gwelwyd hefyd ei fod yn helpu unigolion i ddatblygu eu hyder, hunan-barch a chyflogadwyedd, yn ogystal â gwella teimladau cyffredinol o foddhad fel preswylydd (yr Adran Ffyniant Bro 2022; Tunstall et al 2011; yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2014; Frey a Shanks 2022; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019).

4.4 Canfuwyd bod eisiau dylanwadu ar newid a gwelliant yn allweddol o ran cymell tenantiaid i gymryd rhan (y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019). Drwy gydweithio, gall preswylwyr gael mwy o effaith ac maent yn fwy tebygol o allu dylanwadu ar benderfyniadau landlordiaid (TPAS Scotland 2020), yn ogystal â dylanwadu ar agweddau ehangach awdurdodau lleol a datblygu syniadau ar gyfer gwasanaethau newydd (Tunstall et al 2011).

4.5 Yn olaf, ystyriwyd bod buddion ariannol ymhlith buddion ehangach cyfranogiad tenantiaid. Yn yr un modd â'r dystiolaeth ryngwladol, canfuwyd bod cymdeithasau rheoli tenantiaid (CRhT) yn gwneud arbedion y gellid eu gwario wedyn ar y gymuned ehangach, gyda thrigolion yn penderfynu beth yn union fyddai hyn (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2014). Roedd tystiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu, trwy sicrhau bod tenantiaid yn ymwybodol o newidiadau i adeiladau a systemau, ac yn eu deall yn llawn, y byddai llai o alwadau ac y byddai'n haws osgoi canlyniadau annisgwyl (Sherriff et al 2015).

## Rhwystrau a heriau

4.6 Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg o'r dystiolaeth yn ymwneud â'r rhwystrau rhag cyfranogiad llwyddiannus tenantiaid. Y rhain oedd adnoddau a threfniadaeth, cyfathrebu, ymgysylltu â phreswylwyr ar y cyrion, a newid i hunaniaeth breswylwyr.

4.7 Soniwyd am ddiffyg adnoddau fel rhwystr, a hynny’n gysylltiedig ag adnoddau ariannol yn ogystal â materion staffio. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gyfranogiad tenantiaid yn teimlo nad ydynt yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud y gwaith yn dda a bod angen staff ymroddedig arnynt er mwyn ymgysylltu’n llwyddiannus (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019). Gall diffyg adnoddau priodol olygu bod unrhyw weithgareddau cyfranogi sy'n digwydd yn aneffeithiol, oherwydd efallai na fydd undebau neu gymdeithasau tenantiaid yn gallu llwyr gynrychioli buddiannau eu haelodau, neu fod staff yn cael eu lledaenu'n rhy denau ac felly’n methu cyflawni eu swyddi'n effeithlon (Jordan 2022; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019).

4.8 Yn ogystal â diffyg adnoddau, mae diffyg dealltwriaeth o werth cyfranogiad tenantiaid, a phrinder cymorth gan awdurdodau lleol a landlordiaid eraill, yn arwain at drosiant uchel o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda thenantiaid, gan ei gwneud hi'n anoddach i denantiaid fagu perthynas ymddiriedus â'u landlord neu reolwyr adeilad (y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019; y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; TPAS Scotland 2019). Nodwyd hefyd y gallai diffyg presenoldeb cymunedol sefydliadol fod yn ddryslyd i denantiaid, gan y gallent ymgysylltu â nifer o sefydliadau yn ogystal â'u landlord (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023).

4.9 Gyda'r pwysau adnoddau hyn mewn golwg, mae'n bwysig bod landlordiaid yn gwerthuso'r hyn maen nhw'n ei wneud, er mwyn cyfiawnhau dyrannu adnoddau i weithgareddau ymgysylltu â thenantiaid, yn ogystal â dod i ddeall effeithiolrwydd gwahanol weithgareddau ymgysylltu yn well (Frey a Shanks 2022).

4.10 Canfuwyd hefyd fod cyfathrebu â thenantiaid yn rhwystr rhag gweithgareddau cyfranogiad ac ymgysylltu llwyddiannus. Teimlwyd mai'r dull cyfathrebu mwyaf effeithiol oedd cyswllt wyneb yn wyneb trwy ymweliadau â phreswylwyr yn eu cartrefi, yn hytrach na chyfryngau cymdeithasol neu wybodaeth ar-lein, yr ystyriwyd eu bod

yn weddol aneffeithiol, neu ffurfiau ffisegol fel taflen, y gellid eu hystyried yn sgamiau (Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol 2013; y  Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; Wainwright a Marandet 2017).

4.11 Er ei fod yn effeithiol, cydnabyddir mai cyfathrebu wyneb yn wyneb hefyd yw'r dull sy'n llyncu'r adnoddau mwyaf wrth ymgysylltu â thenantiaid, gan olygu nad yw bob amser yn bosibl, oherwydd diffyg adnoddau fel y trafodwyd yn flaenorol (Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol 2013). Teimlwyd hefyd fod rhwystrau o ran cynnwys tenantiaid nad ydynt yn ddigidol lythrennog neu nad oes cyfrifiadur ar gael iddynt efallai (Wainwright a Marandet 2017).

4.12 Teimlwyd bod materion cyfathrebu yn arbennig o heriol o ran tenantiaid nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, yn benodol o ran llai o gyswllt wyneb yn wyneb â landlordiaid; fodd bynnag, hyd yn oed i denantiaid â Saesneg yn famiaith, cafwyd rhywfaint o'r iaith fwy corfforaethol a thechnegol a ddefnyddir wrth gyfathrebu â thenantiaid yn ddryslyd (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; Wainwright a Marandet 2017) .

4.13 Gall gwybodaeth anhygyrch greu rhwystrau, yn enwedig lle mae amrywiaeth ehangach o sgiliau darllen, yn Saesneg ac mewn ieithoedd lleiafrif ethnig perthnasol, ac felly gall rhannu gwybodaeth mewn ffordd agored a syml helpu gydag ymgysylltu, ond hefyd dangos parodrwydd i ddysgu a gwneud yr ymdrech i gyfathrebu (TPAS Scotland 2019; Llywodraeth Cymru 2019).

4.14 Gall rhwystrau sy'n ymwneud ag anabledd, ethnigrwydd, Saesneg fel ail iaith, namau cyfathrebu ac iechyd meddwl gwael i gyd gyfrannu at beidio â gwrando ar bobl pan fyddant yn codi pryderon, ochr yn ochr â chynrychiolaeth annigonol o denantiaid sy'n nodi eu bod yn bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac anabl mewn grwpiau tenantiaid (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023). Os yw mwy o'r lleisiau hyn i'w clywed, yna mae angen datblygu ffyrdd mwy anffurfiol a hyblyg o ymgysylltu (Frey a Shanks 2022). Crybwyllwyd hefyd faterion yn ymwneud â lleoli a thargedu grwpiau sy'n wynebu risg, oherwydd data gwael. Ar draws pob math o sefydliad, crybwyllwyd diffyg mynediad da at ddata mewnwelediad tenantiaid, sy'n golygu na allent ganolbwyntio gweithgareddau ymgysylltu ar anghenion penodol y tenantiaid yn eu hardal (Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol 2013).

4.15 Cafwyd gwybod hefyd am bryderon ynghylch cau allan y rhai o gymunedau mwy gwledig neu ynysig. Po fwyaf anghysbell yw cymuned o'r ganolfan lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau, mwyaf heriol yw hi i denantiaid, a landlordiaid, hwyluso cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol (Llywodraeth yr Alban 2019). Mae hyn yn bryder arbennig i denantiaid hŷn, y gallai fod yn anoddach iddynt deithio yn ôl ac ymlaen i wasanaethau na thenantiaid eraill, gan ddibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus a allai fod yn brin ac sy'n ychwanegu cost ychwanegol at eu cyfranogiad (Wainwright a Marande 2017; TPAS Scotland 2019).

4.16 Un rhwystr olaf, mwy cymhleth, rhag cyfranogiad tenantiaid oedd y pryder, ar ôl cael cyfrifoldeb fel cynrychiolydd tenantiaid, fod gofyn yn aml iddynt waredu eu hunaniaeth fel tenant ac ysgwyddo cyfrifoldebau newydd er budd y gymdeithas dai (Frey a Shanks 2022). Ochr yn ochr â hyn, dadleuwyd y gall rhaglenni hyfforddi cyfranogiad tenantiaid gyflwyno syniadau penodol i denantiaid o'r hyn sy’n 'ymgysylltiad da', sy'n cydymffurfio ag arferion tai presennol, yn hytrach na chaniatáu i denantiaid archwilio eu syniadau eu hunain am ymgysylltiad da (Jordan 2022). Teimlwyd hefyd fod cyflogi swyddogion ymgysylltu â thenantiaid yn atal cyfranogiad tenantiaid rhag cael ei ymgorffori drwy’r sefydliad cyfan (Frey a Shanks 2022).

### Sail gyfreithiol

4.17 Nid oedd llawer iawn o dystiolaeth yn ymwneud â'r sail gyfreithiol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, gyda'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn dod o'r Alban a Deddf Tai (yr Alban). Fodd bynnag, dylid nodi bod cael deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar waith, i lywio egwyddorion a dulliau craidd cyfranogiad tenantiaid, yn allweddol wrth sicrhau cysondeb mewn strwythurau cyfranogi a phrofiadau tenantiaid (Jordan 2022). Atgyfnerthir hyn gan Tunstall et al (2011) sy'n dadlau, ymhlith pethau eraill, bod fframwaith statudol a diddordeb parhaus y llywodraeth ganolog, yn allweddol i helpu gweithgareddau ymgysylltu â thenantiaid.

4.18 Daeth y dystiolaeth fwyaf cadarn o gyflwyno cyfranogiad tenantiaid i ddeddfwriaeth o'r Alban, yn sgil cyflwyno Siarter Tai Cymdeithasol yr Alban (y Siarter), a gyflwynwyd gyda Deddf Tai (yr Alban) 2010. Ochr yn ochr â chyflwyno’r Siarter, sefydlwyd Rheoleiddiwr Tai yr Alban (RhTA) (rheoleiddiwr annibynnol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) hefyd er mwyn "diogelu a hyrwyddo buddiannau

tenantiaid landlordiaid cymdeithasol heddiw ac yn y dyfodol, pobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau tai a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai" (Llywodraeth yr Alban 2019). Mae hyn yn cefnogi cyfranogiad tenantiaid, oherwydd bob blwyddyn, mae'n ofynnol i landlordiaid ddarparu gwybodaeth i adrodd ar eu perfformiad yn erbyn y Siarter, a gyflwynir wedyn yn adroddiadau landlord RhTA. Mae'r adroddiadau hyn yn disgrifio perfformiad landlordiaid mewn meysydd fel atgyweiriadau, ansawdd y cartref, a pha mor fodlon yw tenantiaid bod eu landlord yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gyfleoedd i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau (Llywodraeth yr Alban 2019).

4.19 Cyflwynodd Deddf Tai (yr Alban) 2014 ofyniad cyfreithiol i landlordiaid ymgynghori â sefydliadau tenantiaid cofrestredig a thenantiaid unigol, ar ystod o faterion tai a materion cysylltiedig. Mae ganddynt ofyniad penodol hefyd i ystyried anghenion grwpiau cydraddoldeb o ran cyfranogiad tenantiaid (Llywodraeth yr Alban 2019).

4.20 Ers 2001 rhaid i landlordiaid cymdeithasol gynnig cyfle i gymdeithasau ddod yn Sefydliadau Tenantiaid Cofrestredig. Mae cofrestru yn sicrhau bod gan Gymdeithasau:

- Safonau gweithredu gofynnol
- Cysylltiadau effeithiol rhwng aelodau a'r Gymdeithas a'r Gymdeithas a'r landlord
- Cydnabyddiaeth gan y landlord (Un o brif fanteision cofrestru yw bod landlordiaid yn cytuno i estyn eu rhwymedigaeth gyfreithiol i ymgynghori i'r Gymdeithas.) (TPAS Scotland 2020)

4.21 Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol:

- Bod â Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid sy'n cefnogi ac yn galluogi tenantiaid i gymryd rhan
- Ymgynghori ar osod rhenti blynyddol a newidiadau sylweddol i wasanaethau.
- Darparu tystiolaeth eu bod yn cymryd camau rhesymol i sicrhau cyfranogiad tenantiaid. (TPAS Scotland 2020)

4.22 Mae Rheoleiddiwr Tai yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau lleol:

- Ymgynghori a chytuno ar sut y bydd tenantiaid (ac eraill) yn cymryd rhan mewn hunanasesiad
- Cynnwys tenantiaid (ac eraill) mewn modd ystyrlon / effeithiol wrth asesu perfformiad a chasglu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad Adolygiad Blynyddol o'r Siarter (ARC)
- Sicrhau bod tenantiaid (ac eraill) yn rhan o fonitro perfformiad rheolaidd a pharhaus (TPAS Scotland 2020)

4.23 Mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig:

- Gasglu a phrosesu gwybodaeth a bennir gan y rheoleiddiwr sy'n ymwneud â'u perfformiad yn erbyn mesurau boddhad tenantiaid. Rhaid casglu'r wybodaeth o fewn amserlen a bennir gan y rheoleiddiwr a rhaid iddi fodloni gofynion y rheoleiddiwr mewn mesurau boddhad tenantiaid: gofynion technegol a mesurau boddhad tenantiaid: gofynion arolwg tenantiaid.
- Cyhoeddi eu perfformiad yn flynyddol yn ôl mesurau boddhad tenantiaid. Dylai hyn roi gwybod sut y maent wedi bodloni gofynion y rheoleiddiwr a nodir yn y Mesurau Boddhad Tenantiaid: Gofynion technegol a Mesurau Boddhad Tenantiaid: Gofynion arolwg tenantiaid. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon mewn modd amserol, clir a hawdd ei chyrchu gan denantiaid.
- Cyflwyno'n flynyddol i'r rheoleiddiwr wybodaeth a bennir gan y rheoleiddiwr o ran eu perfformiad yn erbyn y mesurau hynny. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth o fewn amserlen ac ar ffurf a bennir gan y rheoleiddiwr (Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol 2023).

4.24 Yn 2022, cyhoeddodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyrff Tai Cymeradwy (CTC) ei safonau ar gyfer CTC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i CTC geisio mewnbwn gan denantiaid a darparu cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu ar ddarparu gwasanaethau (Yr Asiantaeth Dai 2022).

## Gweithgareddau

### Grwpiau tenantiaid

4.25 Soniwyd am ddefnyddio grwpiau tenantiaid fel gweithgaredd penodol ymgysylltu â thenantiaid drwy gydol y llenyddiaeth, gan gynnwys paneli tenantiaid, grwpiau craffu, grwpiau cynghori, a grwpiau llywio. Roedd union weithgareddau a phwrpas arfaethedig y grwpiau hyn yn amrywio, ond nod cyffredinol pob un ohonynt oedd cael tenantiaid i ymgysylltu â'u landlordiaid neu reolwyr adeilad. Mewn rhai achosion, soniwyd am gyflwyno grŵp tenantiaid yn gysylltiedig â chynllun gwaith ehangach ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid (yr Adran Ffyniant Bro 2022; Yr Asiantaeth Dai 2022; Llywodraeth Cymru 2019).

4.26 Roedd gweithgareddau paneli tenantiaid yn cynnwys pethau fel gweithio gyda'r landlord i benderfynu beth sydd angen ei wneud, ac yna cytuno ar ddull gyda'i gilydd; cael mwy o lais yn yr hyn sy'n digwydd; helpu i ddatrys cwynion ac anghydfodau a chynnig arweiniad diduedd a chamau gweithredu ymarferol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol 2014).

4.27 Mewn un enghraifft, sefydlwyd Grŵp Llywio Tenantiaid i sbarduno a chydlynu cyfranogiad tenantiaid. Cyfarfu nifer o weithiau ac roedd aelodaeth yn agored i bob tenant, a wahoddwyd trwy gymysgedd o ddulliau cyfathrebu (neges destun, llythyr, ac yn bersonol). Roedd yr aelodau hefyd yn gallu cwrdd ag uwch reolwyr pan ofynnwyd am hynny, er mwyn trafod strategaeth a strwythur corfforaethol y sefydliad (Yr Asiantaeth Dai 2022). Yn yr achos hwn, roedd tenantiaid yn hysbysu sut y dylid trin cyfranogiad pellach tenantiaid, yn hytrach na llywio gweithgareddau mwy ymarferol o ddydd i ddydd yn gysylltiedig â'u cartrefi.

4.28 Roedd Grwpiau Cynghori Tenantiaid hefyd yn aml yn cael eu defnyddio fel cyrff mwy annibynnol, i roi gwybodaeth i denantiaid eraill, rhoi adborth a goruchwylio polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig â thenantiaid (Yr Asiantaeth Dai 2022). Mewn un achos, soniwyd am eu defnyddio hefyd i brofi gwasanaethau landlordiaid, adolygu deunydd ar gyfer hygyrchedd ac asesu gwybodaeth a deunyddiau a gynhyrchwyd gan landlordiaid ar gyfer eu tenantiaid (Rheoleiddiwr Tai yr Alban 2020). Mae'r gweithgareddau hyn yn cyflwyno grwpiau cynghori fel mwy o gysylltiad rhwng rolau cynllunio lefel uchel, yn ogystal â dylanwadu ar y gweithgareddau pob dydd hynny y

bydd tenantiaid yn rhyngweithio â nhw. Ochr yn ochr â hyn, pan ofynnodd Circle[2] i denantiaid am grwpiau Cynghori Tenantiaid, dywedodd 89% eu bod yn teimlo bod grŵp cynghori yn syniad da, a nododd 52% y byddent yn cymryd rhan (Circle 2021).

4.29 Mae TPAS Scotland yn diffinio Craffu gan Denantiaid fel cynnwys tenantiaid er mwyn:

- gwella perfformiad gwasanaeth a’r safonau i ddefnyddwyr
- atgyfnerthu cyfrifoldebau a dwyn eu landlord yn atebol
- canolbwyntio ar brosesau a systemau a nodi'r hyn sy'n cael ei werthfawrogi am wasanaethau
- monitro ac asesu darpariaeth gwasanaethau i sicrhau Gwerth am Arian

4.30 Paneli craffu gan denantiaid yw un o'r ffyrdd ffurfiol mwyaf cyffredin o ymgynghori â thenantiaid (TPAS Scotland 2020) ac yn aml fe’u hystyrir gyda'r farn mai'r bobl orau i graffu ar wasanaethau yw defnyddwyr y gwasanaethau eu hunain (Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol 2013). Dylai gweithgareddau craffu da i denantiaid fod yn annibynnol, wedi’u harwain yn wirioneddol gan y tenantiaid, gan roi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar wasanaethau newydd a chraffu arnynt, a dewis y ffordd y cânt eu harchwilio (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol 2019; TPAS Scotland 2020).

4.31 Mae sefydliadau rheoli tenantiaid yn ffordd fwy cydweithredol o gynnwys tenantiaid mewn datblygu a rheoli tai, ac fel arfer maent yn cynnwys grŵp o breswylwyr tai cymdeithasol o ardal benodol, sy’n ysgwyddo rhai o'r cyfrifoldebau am dai yn eu hardal, yn lle eu landlordiaid neu reolwyr adeilad. Mae gweithgareddau arferol yn cynnwys adrodd a monitro atgyweiriadau, gweinyddu, rheoli cyllidebau, a gweithgareddau cynnal a chadw (Tunstall et al 2011).

### Hyfforddiant i denantiaid a landlordiaid

4.32 Un gweithgaredd arall yr ystyriwyd ei fod yn allweddol i gyfranogiad tenantiaid llwyddiannus oedd cyfle i denantiaid, a landlordiaid, gael hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant penodol i breswylwyr er mwyn rhoi'r offer a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddylanwadu ar eu landlord a chymryd rhan yn y

[2] Cymdeithas dai wirfoddol yn Iwerddon yw Circle, sydd ar waith ers 2003, gan ddarparu tai cymdeithasol a fforddiadwy.

broses gwneud penderfyniadau yn hyderus (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol 2020; yr Adran Ffyniant Bro 2014).

4.33 Roedd awgrymiadau ehangach hefyd ar gyfer hyfforddiant, megis gwybodaeth sylfaenol ar-lein am gyfleoedd, a hawliau tenantiaid, hyfforddiant ar gynnal arolygiadau, arolygon adborth a dadansoddi dealltwriaeth, yn ogystal â gwybodaeth am sut mae polisïau a gwasanaethau’n gweithio a'r fframwaith cyfreithiol o'u cwmpas, a’r cyfan gyda'r nod o gefnogi tenantiaid yn eu rolau (yr Adran Ffyniant Bro 2014; Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol 2013; Yr Asiantaeth Dai 2022; Llywodraeth yr Alban 2019; Tunstall et al 2011) .

4.34 Teimlwyd hefyd y byddai hyfforddi tenantiaid ochr yn ochr â staff tai a landlordiaid yn gwella effeithiolrwydd cyfranogiad (Frey a Shanks 2022), ac yn helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a chyd-ddealltwriaeth (TPAS Scotland 2020; Llywodraeth Cymru 2019). Teimlwyd hefyd ei bod yn fwy cost effeithiol cynnal sesiynau hyfforddi ar y cyd ar gyfer staff a thenantiaid (Llywodraeth yr Alban 2019).

### Amrywiaeth o gyfleoedd

4.35 Un thema allweddol drwy'r holl lenyddiaeth oedd y dylid cynnig ystod eang o gyfleoedd i denantiaid ymgysylltu (yr Adran Ffyniant Bro 2022; y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol 2019; Frey a Shanks 2022; Llywodraeth yr Alban 2019; Circle 2021). Dylai'r cyfleoedd hyn fod yn ystyrlon (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol) a chynnwys ystod o fecanweithiau sy'n caniatáu i denantiaid ddewis un sy'n cyd-fynd â'u hamgylchiadau (Frey a Shanks 2022). Er enghraifft, peidio â dewis lleoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i denantiaid deithio'n bell o'r ardal leol, neu sicrhau grwpiau ffocws bach fel bod pawb yn cael cyfle i fynegi barn (Llywodraeth yr Alban 2019). Dylai hyn yn ei dro ganiatáu i ystod ehangach o leisiau mwy amrywiol gael eu cynnwys (Frey a Shanks 2022), gan fod grwpiau penodol sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid, yn cynnwys cymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, tenantiaid hŷn, a thenantiaid ag anghenion cymorth. Dylai landlordiaid fod yn anelu at greu cyfleoedd wedi'u targedu fel y gall y grwpiau hyn gymryd rhan yn rhwydd (Llywodraeth yr Alban 2019).

4.36 Ymhlith y cyfleoedd penodol ar gyfer ymgysylltu yr oedd tenantiaid yn cael cynnig cyfle i gymryd mwy o ran ar ôl gwneud ymholiad neu gŵyn gychwynnol (Tunstall et al

2011), cael tenantiaid i gymryd rhan wrth benderfynu ar y dull ymgysylltu pellach (Frey a Shanks 2022), sicrhau bod ymgysylltu wedi'i deilwra'n briodol i denantiaid (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol 2020), gan gynnwys cynnig cyfleoedd ar wahanol adegau, mewn gwahanol leoedd a thrwy wahanol gyfryngau. Yn aml, gall gweithgareddau unigol gael ymateb gwell, gan eu bod yn teimlo'n fwy priodol ac yn cymryd llai o amser i denantiaid (TPAS Scotland 2020). Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig cynnig amrywiaeth o weithgareddau, ond hefyd gwerthuso'r rhain yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol ac o fudd i denantiaid (y Gymdeithas Llywodraeth Leol/TPAS 2019).

### Ystyriaethau hygyrchedd tenantiaid

4.37 Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig ystyried ystod eang o denantiaid a'u hanghenion posibl, gan gynnwys sicrhau bod lleoliadau cyfarfod yn hygyrch, gan gynnwys cymhorthion cyfathrebu, a sicrhau bod cyllid ar gael i dalu am unrhyw gostau teithio neu ofal i'r tenantiaid hynny sydd â chyfrifoldebau gofal neu y mae angen iddynt deithio o ardal wledig. Dylid ystyried ymrwymiadau amser a dewisiadau iaith hefyd, er mwyn cefnogi tenantiaid i gyfranogi mor llawn ag y gallant (Llywodraeth yr Alban 2019; TPAS Scotland 2020; Jordan 2022).

### Un gwasanaeth cenedlaethol

4.38 Soniwyd am greu un gwasanaeth cenedlaethol mewn tri phapur, un yng nghyd-destun undebau neu gymdeithasau tenantiaid annibynnol, felly er nad un gwasanaeth unigol mohono, cymhwyswyd yr effaith a'r pwrpas i lefel genedlaethol (Jordan 2022). Dadleuwyd y byddai creu un gwasanaeth cenedlaethol yn cynnig gwell cyfleoedd i denantiaid, yn ogystal â lleihau goblygiadau adnoddau (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol 2019). Roedd gan un enghraifft o'r Alban gyswllt rhwydwaith rhanbarthol, a oedd yn caniatáu i denantiaid ledled yr Alban gyfathrebu'n uniongyrchol a rhannu arfer gorau a phrofiadau gwahanol (Rheoleiddiwr Tai yr Alban 2020).

4.39 Dadleuwyd mewn un papur mai'r model delfrydol yw un lle mae cymdeithas genedlaethol gynrychioliadol o denantiaid awdurdodau lleol sydd â changhennau a rhwydweithiau lleol cysylltiedig yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad cyfraith a

pholisi tai ac yn codi materion sy'n peri pryder i denantiaid ar y lefelau uchaf. (Jordan 2022)

### Rhannu arfer gorau

4.40 Soniwyd am rannu arfer gorau, neu dda, mewn pedwar o'r papurau. Un gweithgaredd allweddol wrth rannu arfer gorau oedd cyhoeddi astudiaethau achos neu bapurau, yn amlinellu gweithgareddau a dulliau gweithredu cyfredol, gan gyfeirio'n benodol at gynnwys tenantiaid wrth wneud penderfyniadau (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023). Ystyriwyd hefyd fod sefydlu grwpiau ar gyfer rhannu arfer gorau yn ffordd dda i landlordiaid a rheolwyr adeilad rannu eu dulliau gweithredu presennol a'r hyn sy'n gweithio iddynt (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019). Awgrymwyd hefyd ganolfan wybodaeth ar y we, lle gallai astudiaethau achos o arfer da, wedi'u dilysu gan denantiaid, gael eu gosod a'u cyrchu'n rhwydd, ynghyd â manylion cyswllt sefydliadau sy'n dangos arfer gorau (y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019). Roedd yna enghraifft hefyd o hyrwyddo arfer gorau drwy gyflwyno Safonau ac Achrediad Cyfranogiad Tenantiaid, i annog darparwyr tai i feddwl am eu harfer ymgysylltu (Supporting Communities, Empowering Society 2022).

### Rhwydweithiau cymunedol

4.41 Amlygwyd pwysigrwydd cymuned, a defnyddio sefydliadau cymunedol sefydledig, yn enwedig o ran ymgysylltu â thenantiaid hŷn, neu denantiaid o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Drwy ddefnyddio sianeli cyfathrebu presennol a dibynadwy, efallai y bydd cymunedau'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cymryd rhan mewn mathau o gyfranogiad tenantiaid (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; Llywodraeth Cymru 2019). Awgrymwyd hefyd creu hybiau tenantiaid ar ddatblygiadau tai mwy o faint, a allai gynnal sesiynau rheolaidd i denantiaid alw heibio (Frey a Shanks 2022)

### Cyfathrebu

4.42 Mewn deuddeg o'r adroddiadau a astudiwyd ar gyfer yr adolygiad hwn o dystiolaeth, ystyriwyd cyfathrebu a'r ffordd y dylid cyfathrebu â thenantiaid. Fel thema gyffredinol,

nodwyd y dylid hysbysu tenantiaid am unrhyw beth yn gysylltiedig â'u cartref, gan gynnwys cynnal a chadw ac adnewyddu, ond y dylid rhoi cyfle iddynt hefyd ymgysylltu â'u landlord neu reolwr adeilad mewn modd sy'n addas iddynt, gan gynnwys dewis arddull gyfathrebu (Sherrif et al 2015; Llywodraeth Cymru 2019).

4.43 Soniwyd nifer o weithiau am bwysigrwydd gweithio i gynyddu presenoldeb corfforol landlordiaid a rheolwyr adeiladau, gydag awgrymiadau am ddigwyddiadau cymunedol, a hybiau (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig 2023; Frey a Shanks 2022). Mewn un enghraifft lle'r oedd gwaith adnewyddu helaeth yn digwydd, roedd trigolion yn aml yn chwilio am y contractwyr a'r swyddogion cyswllt ar y safle os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon ac yn crybwyll lefelau uchel o foddhad â chyfathrebu a darparu gwybodaeth, gan amlygu pwysigrwydd presenoldeb personol (Sherriff et al 2015). Nodwyd hefyd fod llafar gwlad yn strategaeth gyfathrebu effeithiol, gyda llawer o drigolion yn dysgu am gyfleoedd ymgysylltu gan ffrindiau neu gymdogion (Wainwright a Marandet 2017). Cefnogwyd hyn gan ganfyddiadau pellach a ganfu fod pobl yn fwy tebygol o ymgysylltu'n agored ag aelod o'u cymuned eu hunain, yn hytrach na ffynhonnell swyddogol, yn enwedig wrth drafod pynciau sensitif fel ôl-ddyledion rhent neu les (yr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol). I'r tenantiaid hyn a allai deimlo'n anesmwyth wrth ymgysylltu â staff, gellir ystyried bod gweithgareddau allgymorth a rhyngweithio wyneb yn wyneb yn ffordd dda o symud heibio'r rhwystrau hyn a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau (Wainwright a Marandet 2017).

4.44 Roedd enghreifftiau hefyd o ddulliau cyfathrebu mwy ffurfiol, gan gynnwys llythyrau, taflenni, cylchlythyrau, posteri a hysbysfyrddau mewn ardaloedd cymunedol (Wainwright a Marandet 2017; TPAS Scotland 2020). Yn ogystal â'r mathau traddodiadol hyn o gyfathrebu, teimlwyd hefyd fod defnyddio technoleg yn offeryn hanfodol wrth gyfathrebu â thenantiaid. Soniwyd bod galwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun, fforymau ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan landlordiaid a rheolwyr adeiladau (Frey a Shanks 2022; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019; TPAS Scotland 2020; Circle 2021).

4.45 Yn ogystal â'r union ddulliau a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu, trafodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod cyfathrebu yn glir, ac yn hawdd ei ddeall i denantiaid, er mwyn sicrhau ymgysylltiad da â thenantiaid. Roedd hyn yn arbennig o bwysig wrth weithio gyda chymunedau sydd â Saesneg yn ail iaith, a sicrhau y gallai'r tenantiaid hynny gymryd rhan hefyd (Llywodraeth yr Alban 2019; y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol 2023; Frey a Shanks 2022)

### Effaith weladwy

4.46 Teimlwyd bod tenantiaid yn gallu gweld canlyniad diriaethol eu cyfranogiad yn ysgogiad pwysig i ymgysylltu pellach, gan ei fod yn ennyn hyder ymhlith tenantiaid fod rhywun yn gwrando arnynt ac yn dangos nad rhywbeth symbolaidd yn unig mo'u hymgysylltiad (Tunstall et al 2011; Frey a Shanks 2022; TPAS Scotland 2020; y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS 2019; Jordan 2022; Llywodraeth yr Alban 2019; Sherrif et al 2015). Os yw tenantiaid wedi cyfrannu at bolisi a darparu gwasanaethau, ond nad yw eu syniadau a'u barn wedi'u defnyddio, dylid egluro pam, er mwyn cadw cyfathrebu'n dryloyw ac agored (Llywodraeth yr Alban 2019; TPAS Scotland 2020). Un rhan bwysig o ddangos i denantiaid yr effaith y maent wedi'i chael yw monitro gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn rheolaidd i olrhain canlyniadau a pha rai sydd fwyaf llwyddiannus (Llywodraeth yr Alban 2019; TPAS Scotland 2020).

### Newid sefydliadol

4.47 Soniwyd am brif ffrydio cyfranogiad tenantiaid mewn sefydliadau mewn pedwar o'r adroddiadau fel elfen bwysig o sicrhau ei fod yn effeithiol. Teimlwyd bod awgrymiadau o gyflwyno ymrwymiadau ar lefel bwrdd (y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol 2023) a chael strategaeth ymgysylltu â thenantiaid a gyhoeddwyd i lywio newidiadau strwythurol (Yr Asiantaeth Dai 2022) yn gamau cadarnhaol a fyddai'n helpu sefydliadau i symud tuag at integreiddio cyfranogiad yn eu gweithgareddau pob dydd.

4.48 Ar lefel is, ystyriwyd ei bod yn bwysig y dylai'r holl staff gydnabod eu rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid, ond ystyriwyd bod cyflogi swyddogion pwrpasol ymgysylltu â thenantiaid yn adnodd pwysig i gefnogi staff, yn ogystal â thenantiaid (Llywodraeth yr Alban 2019; Yr Asiantaeth Dai 2022).

## 5. Tystiolaeth Cymru

5.1 Roedd saith o'r papurau yn darparu tystiolaeth o Gymru, a phump ohonynt o TPAS Cymru. Dylid ystyried hyn wrth ddarllen y dystiolaeth, am mai TPAS Cymru yw'r prif wasanaeth cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru ac mae wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru.

### Buddion ehangach

5.2 Gall buddion cyfranogiad tenantiaid gynnwys:

- Gwell darpariaeth gwasanaeth a gwell gwerth am arian.
- Adeiladu cyfalaf cymdeithasol a chapasiti cymunedol.
- Gwella atebolrwydd i denantiaid.
- Gwella cyrhaeddiad gwasanaeth a/neu'r nifer sy'n manteisio arno.
- Gwasanaeth mwy agored a chynhwysol.
- Arbedion effeithlonrwydd.
- Daw staff a thenantiaid yn fwy ymwybodol o'u safbwyntiau ei gilydd a chyfyngiadau sefydliadol ac ariannol.
- Cyfleoedd i denantiaid gynyddu eu hunanhyder a'u sgiliau i baratoi at waith. Mae hefyd yn helpu pobl i gymryd rhan mewn cymdeithas, neu barhau i wneud hynny.
- Lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau.
- Datblygu ffyrdd newydd o gydgynhyrchu gwasanaethau a strwythurau cefnogi ei gilydd

(TPAS Cymru - 2017)

### Rhwystrau a heriau

5.3 Teimlwyd bod y rhwystrau allweddol rhag ymgysylltu â thenantiaid wedi'u cysylltu'n eang â materion hygyrchedd. Roedd hyn yn cynnwys deunyddiau hysbysebu ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn defnyddio iaith gymhleth, gan atal y rheini sydd â Saesneg yn ail iaith, neu sgiliau llythrennedd gwael, rhag cymryd rhan. Ystyriwyd hefyd ei bod yn allweddol sicrhau bod digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb yn hygyrch i bawb, gan ystyried y rhai sy'n anabl (e.e. defnyddio adeilad sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, neu sydd â system ddolen), ond hefyd ystyried yr amser, a'r lleoliad, i sicrhau ei fod yn hygyrch i'r nifer fwyaf o bobl, gan ystyried cyfrifoldebau gofal a'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau mwy gwledig (TPAS Cymru; TPAS Cymru 2020).

5.4 Crybwyllwyd hefyd fod diffyg adborth a roddir i denantiaid ynghylch sut mae eu cyfranogiad wedi cyfrannu at newid, neu beidio, wedi rhwystro ymgysylltu â

thenantiaid ymhellach. Hyd yn oed os oes gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn digwydd, os nad oes canlyniadau clir neu weladwy, teimlwyd efallai na fydd tenantiaid yn teimlo bod eu mewnbwn wedi cael ei ddefnyddio (TPAS Cymru; TPAS Cymru 2019).

## Sail gyfreithiol

5.5 Fel y nodwyd gan y Tîm Rheoleiddio Tai (2021), mae anghenion a diddordebau tenantiaid yn bwysig, ac felly mae gan y safonau rheoleiddio ddisgwyliadau clir i gymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol alluogi, a chefnogi, tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau a darpariaeth gwasanaethau, a’u llywio. Mae angen cyfranogiad tenantiaid effeithiol o dan y safon, ac er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gymdeithasau allu dangos tystiolaeth y bu tenantiaid yn rhan effeithiol o wneud penderfyniadau a llywio gwasanaethau (Bwrdd Rheoleiddio Cymru 2019).

## Gweithgareddau

### Effaith weladwy

5.6 Yn yr un modd â thystiolaeth y DU, dadleuodd tystiolaeth Cymru dros bwysigrwydd cael tenantiaid i allu gweld yr effaith y mae eu mewnbwn yn ei chael. Drwy ddangos y gwahaniaeth a wnaethant drwy gymryd rhan, bydd yn gwneud i'w cyfranogiad deimlo'n fwy ystyrlon, ac yn eu hannog i ymgysylltu mwy yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig, os nad yw eu mewnbwn wedi cael ei ddefnyddio, dweud wrthynt pam felly (TPAS Cymru; TPAS Cymru 2017; Bwrdd Rheoleiddio Cymru 2019). Bydd y didwylledd a'r tryloywder hwn yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol rhwng tenantiaid a landlordiaid, a fydd hefyd yn helpu gyda chyfranogiad yn y dyfodol (TPAS Cymru 2020).

## Ymrwymiad sefydliadol

5.7 Mae TPAS Cymru (2017; 2019; 2020) yn dadlau y dylai fod gan bob darparwr cymorth strategaeth i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth sy'n amlinellu dull gweithredu'r sefydliad, gyda'r holl weithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn cysylltu'n ôl â'r strategaeth gyffredinol. Er mwyn i gyfranogiad denantiaid fod yn llwyddiannus, awgrymir ganddynt hefyd y dylai ddechrau ar frig y sefydliad, gydag uwch staff yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi datblygiad cyfranogiad tenantiaid a sicrhau bod yr holl

weithgarwch yn ystyrlon. Trwy ymgorffori cyfranogiad tenantiaid, galluogir yr holl staff i ystyried anghenion a blaenoriaethau tenantiaid a dylid eu hannog i wneud hynny.

5.8 Nodwyd hefyd, er mwyn prif ffrydio cyfranogiad tenantiaid yn llwyddiannus mewn sefydliadau, fod angen adeiladu a chynnal diwylliant o ymddiriedaeth a pharch, ar bob lefel o sefydliad. Bydd hyn yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol ac adeiladol rhwng tenantiaid a landlordiaid (TPAS Cymru 2017; Bwrdd Rheoleiddio Cymru 2019).

### Gwybodaeth gymunedol

5.9 Dylai landlordiaid geisio defnyddio'r wybodaeth leol sydd gan denantiaid ynghylch eu cartrefi a'u cymunedau, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus (TPAS Cymru; TPAS Cymru 2020). Trwy nodi grwpiau a gweithgareddau presennol sydd eisoes yn ymgysylltu â thenantiaid, gall landlordiaid weithio i adeiladu ar y perthnasoedd hyn ac annog cyfranogiad pellach (TPAS Cymru 2020).

### Amrywiaeth eang o gyfleoedd

5.10 Dylid cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i denantiaid ymgysylltu, gan gynnwys dulliau mwy anffurfiol, pob dydd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd ystod ehangach a mwy amrywiol o denantiaid yn gallu cymryd rhan (TPAS Cymru; TPAS Cymru 2020). Dylai amseroedd a lleoliadau hefyd fod mor hyblyg â phosibl, er mwyn diwallu anghenion y nifer fwyaf o denantiaid (TPAS Cymru).

### Cyfathrebu

5.11 Dylid defnyddio nifer o ddulliau cyfathrebu â thenantiaid, gan gynnwys taflenni a phosteri mewn ardaloedd cymunedol, gweithgareddau wyneb yn wyneb, yn ogystal â llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a hyrwyddo ar y we, er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach (TPAS Cymru 2020). Dylid ystyried hefyd pa wybodaeth y bydd ei hangen ar denantiaid er mwyn ymgysylltu'n effeithiol (TPAS Cymru 2020).

5.12 Cynhaliodd TPAS Cymru (2021) arolwg tenantiaid. Pan ofynnwyd iddynt am yr hyn yr oeddent am glywed amdano gan eu landlordiaid, yr ymateb mwyaf cyffredin gan denantiaid oedd cynnal a chadw. Roedd hyn yn wir am denantiaid y sector rhentu preifat (SRhP) (59%) a thenantiaid landlordiaid cymdeithasol (73%). Hefyd, rhoddwyd i denantiaid o'r SRhP yr opsiwn 'Nid wyf am glywed gan fy landlord/asiant gosod', sef yr ail ymateb mwyaf poblogaidd (35%). Yr ail ateb mwyaf poblogaidd i denantiaid

landlordiaid cymdeithasol oedd cael gwybodaeth am eu cymuned (45%, gyda dim ond 8% o denantiaid y SRhP yn dewis hyn). Y trydydd ateb mwyaf poblogaidd i denantiaid tai cymdeithasol oedd gwybodaeth am wasanaethau landlordiaid (34%), gyda dim ond 19% o denantiaid y SRhP yn dewis hyn, a hynny o bosibl oherwydd disgwyliadau o'r hyn y dylai landlordiaid ei ddarparu (TPAS Cymru 2021).

5.13 Canfuwyd mai'r math mwyaf cyffredin o ryngweithio rhwng tenantiaid a landlordiaid oedd cofnodi cais atgyweirio neu gynnal a chadw (68%). Roedd y lefel isaf o ryngweithio ar ffurf presenoldeb mewn digwyddiad/cyfarfod. (TPAS Cymru 2021).

5.14 Wrth edrych ar y gwahaniaeth rhwng demograffeg, nododd y tenantiaid hynny a nododd eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrif Ethnig lefelau uwch o geisiadau am gynnal a chadw ac atgyweirio gan +7%. Dim ond 7% o denantiaid o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig a nododd eu bod wedi llenwi arolwg tenantiaid i'w landlord. Mae hyn yn cymharu â 32% o'r holl ymatebwyr. Adroddwyd hefyd mai dim ond chwarter y rhai a oedd yn nodi eu bod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig oedd wedi gweld gohebiaeth gan eu landlord, o gymharu â thros draean o'r boblogaeth denantiaid gyffredinol (TPAS Cymru 2021).

5.15 Roedd oedran hefyd yn ddangosydd arwyddocaol o ymgysylltu. Er bod cofnodi atgyweiriadau ac ymholiadau yr un fath ar draws pob oedran, o ran gweithgareddau ymgysylltu fel arolygon boddhad, mynychu digwyddiadau neu weld gohebiaeth landlordiaid, canfuwyd bod tenantiaid iau yn llai tebygol o ymgysylltu (TPAS Cymru 2021).

## 6. Casgliadau

6.1 Roedd y dystiolaeth a drafodwyd yn yr adolygiad hwn yn ystyried pa weithgareddau cyfranogiad tenantiaid sy'n digwydd, eu buddion, ac unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Gallai ymchwil pellach i'r maes hwn ystyried archwilio'r gwahaniaeth profiad rhwng tenantiaid y sector rhentu preifat a thenantiaid tai cymdeithasol. Cafwyd bylchau hefyd yn y dystiolaeth yn ymwneud â gwahanol ddemograffeg a sut maent yn rhyngweithio â gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid, a gwahanol rwystrau sy'n wynebu gwahanol grwpiau. Er y crybwyllwyd hyn yn fras (h.y. yr henoed, y rhai sydd â Saesneg yn ail iaith), ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth fanwl ynghylch sut mae grwpiau penodol yn ymgysylltu ar hyn o bryd.

6.2 Nodwyd mai'r prif rwystrau rhag ymgysylltu â thenantiaid oedd diffyg adnoddau (ar gyfer tenantiaid, a landlordiaid/sefydliadau), a oedd yn effeithio ar yr ail rwystr, sef cyfathrebu. Y dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol a nodwyd (wyneb yn wyneb) yw'r rhai mwyaf dwys o ran adnoddau hefyd, gan arwain at ddefnyddio dulliau mwy aneffeithiol, megis taflenni ac e-byst, a grwpiau mwy o denantiaid o bosibl yn cael eu heithrio. Teimlwyd hefyd fod defnyddio iaith syml a chlir wrth gyfathrebu yn allweddol i ymgysylltu ag ystod eang o denantiaid.

6.3 Er mwyn gwybod sut i gyfathrebu'n effeithiol, dylai landlordiaid wybod pwy yw eu tenantiaid, ac unrhyw anghenion sydd ganddynt. Gallai gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid helpu gyda hyn, ond byddai angen gwaith gan y landlord hefyd er mwyn ymgysylltu â nhw yn gyntaf.

6.4 Y prif weithgareddau cyfranogiad tenantiaid y soniwyd amdanynt yn y dystiolaeth oedd gwahanol fathau o grwpiau tenantiaid. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau craffu gan denantiaid, paneli llywio, a grwpiau cynghori. Er bod dulliau ychydig yn wahanol, diben cyffredinol y grwpiau hyn yw rhoi cyfle i denantiaid roi adborth a gweithio'n uniongyrchol gyda landlordiaid neu reolwyr adeiladau, a chynrychioli'r gymuned denantiaid ehangach.

6.5 Mae gweithgareddau llai ffurfiol fel fforymau tenantiaid, sesiynau galw heibio, ac arolygon tenantiaid, hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfranogiad tenantiaid. Mae'r rhain yn tueddu i lywio materion neu ymgysylltiad mwy ymarferol, o ddydd i

ddydd, gan gynnwys tenantiaid, heb roi rôl weithredol iddynt ar lefel uwch o wneud penderfyniadau.

6.6 Er mwyn i gyfranogiad tenantiaid fod yn effeithiol, dylid ei wneud yn flaenoriaeth sefydliadol, yn enwedig i unrhyw un sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda thenantiaid. Mae hefyd yn bwysig bod tenantiaid yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i ymgysylltu, ac felly dylid cynnig hyfforddiant i'r holl denantiaid sy'n cymryd rhan weithredol mewn cyfranogiad tenantiaid.

6.7 Gall arweiniad mwy cadarn ynghylch sut y dylid cynnwys tenantiaid helpu i annog landlordiaid a thimau rheoli adeiladau i feddwl am gyfranogiad tenantiaid. Bydd cyhoeddi adroddiadau rheolaidd, fel rhwymedigaeth gyfreithiol, o'r ffordd y maent yn ymgysylltu â thenantiaid hefyd yn helpu i adeiladu enghreifftiau o arfer da i eraill ddysgu ohonynt. Byddai hyn hefyd yn helpu i ddangos i denantiaid sut mae eu cyfranogiad wedi cael ei ddefnyddio; roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn bwysig i'w hannog i ymgysylltu yn y dyfodol.

## 7. Cyfeiriadau


Yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau. (2017). Tenant Involvement and Empowerment Standard. Llywodraeth y DU.

Circle. (2021). Tenant Communication and Engagement Strategy 2021-2024. Circle VHA.

Costarelli, I. K. (2020). 'Thou shalt be a (more) responsible tenant': exploring innovative management strategies in changing social housing contexts . *Journal of Housing and the Built Environment; Dordrecht cyf. 35, rhif. 1*, 287-307.

Yr Adran Ffyniant Bro. (2022, Awst 15). New Resident Opportunities and Empowerment Grant: Prospectus.

Yr Adran Ffyniant Bro a Llywodraeth Leol (2014). Tenants Leading Change: How to get involved in making your neighbourhood a better place to live.

Federation, N. H. (2019). Together with Tenants- Revised plan and next steps.

Foroughi, B. (2013). Toronto Community Housing: Tenant Participation and Informal Learning. *The Canadian Journal for the Study of Adult Education (Online); Cyf. 25, Rhif. 2, 35*.

Foroughi, B. (2017). Reading Between the Lines of Participation: Tenant Participation and Participatory Budgeting in Toronto Community Housing. *Journal of Public Deliberation; Berkeley Cyf. 13, Rhif. 2*.

Frey, J., a Shanks, P. (2022). *Embedding a culture of tenant engagament: Recommendations for social housing in the Irish context.* Tuath Housing.

Y Tîm Rheoleiddio Tai (2021). *Y fframwaith rheoleiddiol ar gyfer cymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru.* Llywodraeth Cymru.

Huisman, C., a Czischke, D. (2023). Between Self-organisation and Formal Participation: Increasing Tenants' Influence through Self-Management?- A Dutch Case Study. *Housing, Theory, and Society; Abingdon Cyf. 40, Rhif.2*, 219-237.

Jordan, M. (2022). *Empowering Tenants; Protecting Human Rights.* Yr Asiantaeth Dai/Prifysgol Genedlaethol Iwerddon.

Y Gymdeithas Llywodraeth Leol a TPAS. (2019). *Engaging and empowering tenants in council-owned housing.*

Yr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol (2013). *Strong foundations: Building better dialogue between tenants and landlords.*

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, (2020). The charter of social housing residents social housing white paper. Llywodraeth y DU.

Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol: (2023). Consultation on the revised directions to the Regulator of Social Housing: Tenant Invovlement and Mutual Exchange- Our response.

Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol a'r Sefydliad Tai Siartredig. (2023). Joint NHF and CIH action plan in response to the Better Social Housing Review.

Llywodraeth Gogledd Iwerddon. (2016). *A tenant participation strategy for Northern Ireland: 2015-2020 Action Plan.* Yr Adran Datblygu Cymdeithasol.

Y Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol. (2023). *Tenant Satisfaction Measures Standard. Comes into effect from 1 April 2023.* Llywodraeth y DU.

Bwrdd Rheoleiddio Cymru. (2019). *Y pethau iawn - Clywed llais tenantiaid.* Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth yr Alban. (2019). Guide to Successful tenant participation .

Rheoleiddiwr Tai yr Alban. (2020). How we include tenants and service users in our work 2023 to 2026.

Sherriff, G., Brown, J., Clark, A., et al  (2015). *Engaging residents in regeneration: Lessons from Pendleton.* Prifysgol Salford.

Stenberg, J. (2018). Dilemmas associated with tenant participation in renovation of housing in marginalized areas may lead to system change. *Cogent Social Sciences; Abingdon Cyf.4*, 1-22.

Supporting Communities, Empowering Society. (2022). *Supporting Communities, Empowering Society. Annual Report 2021-2022.* Gogledd Iwerddon.

Suszynska, K. (2015). Tenant Participation in Social Housing Stock Management. *Real Estate Management and Valuation, Cyf. 23, Rhif. 3* , 47-53.

Yr Asiantaeth Dai. (2022). *Developing a tenant engagement culture and structure: The case of circle VHA.*

TPAS Cymru . (Dim dyddiad). *Ennyn diddordeb pobl ifanc i gymryd rhan.*

TPAS Cymru. (2017). *Canllaw ar gyfranogiad tenantiaid.*

TPAS Cymru. (2020). *Hanfodion Cyfranogiad: Dulliau ymarferol o gynnwys tenantiaid.*

TPAS Cymru. (2021). *Mae'r Pethau Sylfaenol yn Cyfrif: Adroddiad Llawn.*

TPAS Cymru. (Dim dyddiad). *Taflen wybodaeth TPAS Cymru: Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth.*

TPAS Scotland . (2020). Hints & Tips 3: Overcoming challenges in Tenant Participation.

TPAS Scotland . (2020). Hints & Tips 4: Methods of Consultation.

TPAS Scotland. (2020). Hints & Tips 1: Introduction to tenant participation.

TPAS Scotland. (2020). Hints & Tips 2: Key steps to tenant participation.

TPAS Scotland. (2020). Hints & Tips 5: Developing interest in engagement .

TPAS Scotland. (2020). Hints & Tips 6 Tenant Scrutiny.

Tunstall, R., Lupton, R., a Power, A. (2011). *Building the Big Society.* Y Ganolfan Polisi Tai.

Wainwright, E., a Marandet, E. (2017). *Social housing and new forms of tenant engagement: Welfare governance, and active citizenship report of findings.* Llundain: Prifysgol Brunel.

# 8. Atodiad A

8.1 Lluniwyd strategaeth chwilio gan ddefnyddio'r termau canlynol:

("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltu); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "gymdeithas dai")

("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltu â thenantiaid") A (gweithredu AC effeithiolrwydd) AC ("arfer gorau" NEU "ffactorau llwyddiant" NEU "hwyluswyr") NEU ("rhwystrau" NEU "heriau") NEU ("ffactorau cymedroli" NEU "nodweddion gwarchodedig") NEU ("ymgysylltiad ffurfiol" NEU "ymgysylltu anffurfiol")) A ("tenantiaid preifat" NEU "tenantiaid cymdeithasol") A ("tenantiaid preifat" NEU "tenantiaid cymdeithasol") A (Cymru NEU "tebyg yn ddiwylliannol" NEU "tebyg yn ddaearyddol")) A ("llais y tenant" NEU "cynnwys tenantiaid") A ("polisi" NEU "deddfwriaeth")

8.2 Lluniwyd rhestr o ffynonellau addas:

ASSIA, Proquest Premium, Emerald Insight, Ingenta, Science Direct, Web of Science; Bevan Foundation; Canolfan Ymchwil Tai a Chynllunio Caergrawnt; y Ganolfan Polisïau Tai (Prifysgol Caerefrog); y Sefydliad Tai Siartredig; Cartrefi Cymunedol Cymru; yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol [yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau]: yr Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol (Gweriniaeth Iwerddon); FEANTSA; yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau [Homes England; Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol]; Housing Europe; y Sefydliad Materion Cymreig; y Gymdeithas Llywodraeth Leol; y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol; Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl; Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon; Llywodraeth yr Alban; Rheoleiddiwr Tai yr Alban; Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban; Briffiau Ymchwil – Senedd y DU; TPAS Cymru; Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

8.3 Nodwyd cyfanswm o 61 o ddyfyniadau perthnasol.

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Tenant Satisfaction Measures Standard. Comes into effect from 1 April 2023 | Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol | Llywodraeth y DU | 2023 | Arweiniad |
| Guide to surveying tenants and service users | Thornton, C. | Rheoleiddiwr Tai yr Alban | 2023 | Arweiniad |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Empowering Tenants: Protecting Human Rights | Jordan, M | Yr Asiantaeth Dai/Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Ebrill 2022 | 2022 | Adroddiad |
| Supporting Communities, Empowering Society. Strategic Plan 2022 – 2025 | Supporting Communities, Empowering Society. (Gogledd Iwerddon) | Supporting Communities, Empowering Society. | 2022 | Adroddiad |
| Supporting Communities, Empowering Society. Annual Report 2021 – 2022 | Supporting Communities, Empowering Society. (Gogledd Iwerddon) | Supporting Communities, Empowering Society. | 2022 | Adroddiad |
| Mae'r pethau sylfaenol yn cyfrif: Adroddiad llawn | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2021 | Adroddiad |
| Hanfodion Cyfranogiad: Dulliau ymarferol o gynnwys tenantiaid | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 1: Introduction to Tenant Participation | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 2: Key Steps to Tenant Participation (TP) | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 3: Overcoming Challenges in TP | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 4: Methods of Consultation | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 5: Developing interest in engagement | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |
| Hints & Tips 6 Tenant Scrutiny | TPAS Scotland | TPAS Scotland | 2020 | Arweiniad |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Enhancing Social Values, Identity and Wellbeing: The Impact of Participatory Working with Housing Association Tenants | Lambourne, T;<br>Jenkins, S. | Community Development Journal<br>Cyf. 55, Rhif. 2, (Ebrill 2020): 331-348. | 2020 | Cyfnodolyn |
| The Charter for Social Housing Residents Social Housing White Paper | Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | Llywodraeth y DU | 2020 | Papur |
| How we include tenants and service users in our work 2023 to 2026 | Rheoleiddiwr Tai yr Alban | Rheoleiddiwr Tai yr Alban | 2020 | Cynllun |
| Clywed llais y tenantiaid wrth reoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2019 | Arolwg |
| Pecyn Hunanasesu ar Denant Graffu – Atodiad (diweddarwyd Medi 2019): 20 peth i'w hystyried i sicrhau bod eich dull o Denant Graffu yn ffres a pherthnasol | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2019 | Arweiniad |
| Pecyn Hunanasesu ar Denant Graffu – Atodiad: 12 peth i'w hystyried i sicrhau bod eich dull o Denant Graffu yn ffres a pherthnasol | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2019 | Arweiniad |
| Guide to Successful Tenant Participation | Llywodraeth yr Alban | Llywodraeth yr Alban | 2019 | Arweiniad |
| Engaging and empowering tenants in council-owned housing | Cymdeithas Llywodraeth Leol/TPAS | Cymdeithas Llywodraeth Leol/TPAS | 2019 | Adroddiad |
| Y Pethau Iawn – Clywed Llais Tenantiaid | Bwrdd Rheoleiddio Cymru<br>(Adolygiad o Gynnwys | Llywodraeth Cymru | 2019 | Adroddiad |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| | Tenantiaid yng Nghymru) | | | |
| Rethinking Customer Insight: Moving beyond the numbers | Housing Associations' Charitable Trust (HACT) | Housing Associations' Charitable Trust (HACT) | 2018 | Adroddiad |
| Canllaw ar gyfranogiad tenantiaid | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2017 | Arweiniad |
| Developing and Maintaining a Tenant Participation Strategy Guidance Notes | | Supporting Communities/ Empowering Communities, Mehefin 2017 | 2017 | Arweiniad |
| A Tenant Participation Strategy for Northern Ireland: 2015 to 2020 | Llywodraeth Gogledd Iwerddon | Adran Datblygu Cymdeithasol | 2016 | Adroddiad |
| A Tenant Participation Strategy for Northern Ireland: 2015 to 2020 Action Plan | Llywodraeth Gogledd Iwerddon | Adran Datblygu Cymdeithasol | 2016 | Adroddiad |
| Tenants leading change. | Yr Adran Ffyniant Bro, | Tai a Chymunedau a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 2014 | Arweiniad |
| Strong foundations: Building better dialogue between tenants and landlords. | Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol | Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol (LGIU) | 2013 | Adroddiad |
| Between Self-organization and Formal Participation: Increasing Tenants' Influence through Self-management? – A Dutch Case-study | Huisman, C; Czischke, D. | Housing, Theory, and Society; **Abingdon** Cyf. 40, Rhif. 2, (Ebrill 2023): 219-237. | 2023 | Cyfnodolyn |
| 4 mater digidol mawr y mae angen i ymgysylltiad tenantiaid eu hystyried yn 2022. | TPAS Cymru | TPAS Cymru | 2022 | Blog |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Developing a Tenant Engagement Culture and Structure: The Case of Circle VHA | Yr Asiantaeth Dai | Yr Asiantaeth Dai | 2022 | Adroddiad |
| Embedding a Culture of Tenant Engagement: Recommendations for Social Housing in the Irish Context | Frey, J; Shanks, P. | Tuath Housing, 2022 | 2022 | Adroddiad |
| Tenant Participation and Engagement in a Digitalising Society: Social Media Use in the Social Housing Sector | Condie, J. M; Ayres, L. | Prifysgol Gorllewin Sydney | 2022 | Adroddiad |
| Communication for the Public Benefit: A case study of everyday communication practices in the municipal housing company Svenska Bostäder | Hellgren, L. | Adran Daearyddiaeth Ddynol, Prifysgol Stockholm | 2022 | Traethawd |
| The social value of social homes in Scotland Year 1 2022: waves 1 and 2 data collection report | Housing Associations' Charitable Trust (HACT) | Housing Associations' Charitable Trust (HACT) | 2022 | Adroddiad |
| Consultation on the introduction of tenant satisfaction measures. Decision Statement | Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol | Llywodraeth y DU | 2022 | Ymgynghoriad |
| Tenant Communication and Engagement Strategy 2021 – 2024 | Circle | Circle VHA | 2021 | Strategaeth |
| Getting Tenants Involved | Cofrestrydd Tai | Y Cofrestrydd Tai, Talaith Victoria | 2021 | Arweiniad |
| Y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru | Tîm Rheoleiddio Tai | Llywodraeth Cymru | 2021 | Adroddiad |
| Cartref! Creu Cymru gwell i bawb. Maniffesto Etholiad y Senedd 2021 | Cartrefi Cymunedol Cymru | Cartrefi Cymunedol Cymru | 2021 | Cynllun |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| One bad board away from bankruptcy: Housing co-operatives, self-management, and the landlord-tenant relationship | Josh Hawley | Prifysgol Queens Kingston, Ontario | 2019 | Traethawd |
| Together with Tenants – revised plan and next steps | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol. | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol. | 2019 | Cynllun |
| Reading Between the Lines of Participation: Tenant Participation and Participatory Budgeting in Toronto Community Housing | Foroughi, B. | Journal of Public Deliberation; **Berkeley** Cyf. 13, Rhif. 2, (2017). | 2017 | Cyfnodolyn |
| Social housing and new forms of tenant engagement: Welfare, governance, and active citizenship Report of Findings | Wainwright, E;<br>Marandet, E. | Prifysgol Brunel Llundain | 2017 | Adroddiad |
| Tenant Involvement and Empowerment Standard | Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau | Llywodraeth y DU | 2017 | Arweiniad |
| Tenant Participation in Social Housing Stock Management | Suszyńska, K. | Real Estate Management and Valuation, Cyf. 23 Rhif. 3 Tt: 47 – 53 | 2015 | Cyfnodolyn |
| Engaging residents in regeneration: Lessons from Pendleton | Sherriff, G;<br>Brown, J;<br>Clark, A: [et al] | Prifysgol Salford | 2015 | Adroddiad |
| Tenants leading change. How to get involved in making your neighbourhood a better place to live | Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol | Llywodraeth y DU | 2014 | Arweiniad |
| Toronto Community Housing: Tenant Participation and Informal Learning | Foroughi, B. | The Canadian Journal for the Study of Adult Education (Ar-lein);<br>Cyf. 25, Rhif. 2, 35. | 2013 | Cyfnodolyn |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Building the Big Society | Tunstall, R;<br>Lupton, R;<br>Power, A;<br>[et al] | Y Ganolfan Polisïau Tai | 2011 | Papur |
| Taflen Wybodaeth TPAS Cymru: Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth | TPAS Cymru | TPAS Cymru | Dim dyddiad | Arweiniad |
| Ennyn diddordeb pobl ifanc i gymryd rhan | TPAS Cymru | TPAS Cymru | Dim dyddiad | Arweiniad |
| Homes England strategic plan 2023 to 2028 | Yr Asiantaeth Tai ac Adfywio | Llywodraeth y DU<br>Homes England | 2023 | Papur |
| Joint NHF and CIH action plan in response to the Better Social Housing Review | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.<br>Y Sefydliad Tai Siartredig | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol | 2023 | Cynllun |
| Consultation on the revised directions to the Regulator of Social Housing: Tenant Involvement and Mutual Exchange - our response | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol. | Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol. | 2023 | Ymgynghoriad |
| New Resident Opportunities and Empowerment Grant: prospectus | Yr Adran Ffyniant Bro | Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, 15 Awst 2022, wedi'i ddiweddaru ddiwethaf 30 Medi 2022 | 2022 | Prosbectws |
| Communication breakdown: Energy efficiency recommendations to address the disconnect between building operators and occupants. | Ruiz, S.N;<br>Day, J.K;<br>Govertsen, K;<br>[et al] | Energy Research and Social Science, Medi 2022, Cyfrol 91, Erthygl Rhif 102719 | 2022 | Cyfnodolyn |
| Interpretation and Representation in Housing Policy Discourse as | Zubrzycka-Czarnecka, A. | Critical Housing Analysis; | 2021 | Cyfnodolyn |

| Teitl | Awdur | Dyfyniad | Blwyddyn Gyhoeddi | Math o gyhoeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Exemplified by Council Tenants' Participation in the Jazdów Estate (Warsaw) | | **Praha** Cyf. 8, Rhif. 1,<br>(2021): 1-10. | | |
| 'Thou shalt be a (more) responsible tenant': exploring innovative management strategies in changing social housing contexts. | Costarelli, I;<br>Kleinhans R;<br>Mugnano S. | Journal of Housing and the Built Environment**;** **Dordrecht** Cyf. 35, Rhif. 1 287-307. | 2020 | Cyfnodolyn |
| Dilemmas associated with tenant participation in renovation of housing in marginalized areas may lead to system change. | Stenberg, J. | Cogent Social Sciences**;** **Abingdon** Cyf. 4, R hif. 1, t1-22. (Ion 2018). | 2018 | Cyfnodolyn |

# 9. Atodiad B

| Ffynhonnell | Strategaethau Chwilio |
|---|---|
| **Y Ganolfan Polisïau Tai (Prifysgol Caerefrog)**<br>Grŵp ymchwil rhyngddisgyblaethol Prifysgol Caerefrog yn canolbwyntio ar gynyddu cydraddoldeb ac ansawdd bywyd yn yr amgylchedd adeiledig | 1. “Cyfranogiad tenantiaid”<br>2. "Ymgynghoriad tenantiaid"<br>3. Ymgynghoriad tai |
| **Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>Corff cynrychioli cymdeithasau tai Cymru. | 1. “Cyfranogiad tenantiaid”<br>2. "Ymgynghoriad tenantiaid"<br>3. Ymgynghoriad tai<br>4. Cymorth i denantiaid |
| **Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol**<br>Adran y Llywodraeth sydd wedi’i disodli bellach gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (gweler isod). | 1. 1.("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau**<br>Adran llywodraeth. | 1. 1.("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol (Gweriniaeth Iwerddon)**<br>Adran llywodraeth (Gweriniaeth Iwerddon). | 2. “Cyfranogiad tenantiaid”<br>3. "Ymgynghoriad tenantiaid"<br>4. ymgynghoriad ar dai tenantiaid |
| **Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau**<br>Adran llywodraeth sydd bellach wedi’i disodli gan Homes England a'r Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (gweler isod). | cynnwys tenantiaid |
| **Homes England**<br>Corff llywodraeth. | 1. “Cyfranogiad tenantiaid”<br>2. "Ymgynghoriad tenantiaid"<br>3. Ymgynghoriad tai<br>4. Cymorth i denantiaid<br>5. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad neu ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai") |
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol**<br>Sefydliad cymorth i lywodraeth leol. Newyddion ac ymchwil. | 1. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |

| | |
|---|---|
| **Y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol**<br>Corff cynrychioli cymdeithasau tai. | 1. 1.Cyfranogiad tenantiaid (wedi'i hidlo gan 'ynghyd â thenantiaid' ac 'adroddiadau') |
| **ProQuest Premium**<br>Mynegai arbenigol a chronfeydd data gwyddorau cymdeithasol testun llawn, sy'n cwmpasu meysydd pwnc gan gynnwys Gwleidyddiaeth, Cymdeithaseg, Addysg, Ieithyddiaeth, a Chyfiawnder Troseddol.<br>Ar gael drwy dudalen fewnrwyd adnoddau electronig y Gwasanaethau Gwybodaeth, Llyfrgell ac Archifau. | 2. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol**<br>Corff llywodraeth. | 1. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad neu ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai") |
| **Science Direct**<br>Cynnig mynediad at gyfeiriadau, crynodebau a thestun llawn (dethol) ar gyfer dros 2,000 o gyfnodolion ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a meddygaeth. Mae'r tanysgrifiad hwn yn cynnwys mynediad at destun llawn yr holl gyfnodolion yng Nghasgliad Pwnc y Gwyddorau Cymdeithasol - dros 160 o deitlau sy'n ymdrin â materion iechyd, addysg, amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol.<br>Ar gael drwy dudalen fewnrwyd adnoddau electronig y Gwasanaethau Gwybodaeth, Llyfrgell ac Archifau. | 1. 1.cyfranogiad tenantiaid mewn tai cymdeithasol (Ers 2019)<br>2. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad neu ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai")<br>3. 3.("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltu â thenantiaid") A gweithredu) A ("arfer gorau" NEU "hwyluswyr") NEU ("rhwystrau" NEU "heriau") NEU ("ymgysylltiad ffurfiol" NEU "anffurfiol”) |
| **Rheoleiddiwr Tai yr Alban**<br>Adran anweinidogol sy'n gyfrifol am reoleiddio tai cymdeithasol yn yr Alban. | 1. cyfranogiad tenantiaid (Chwiliwyd drwy gyhoeddiadau) |
| **Llywodraeth yr Alban**<br>Gweinyddiaeth ddatganoledig. | 1. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **TPAS Cymru**<br>Grŵp cymorth cyfranogiad sy'n gweithio gyda thenantiaid, landlordiaid a sefydliadau cysylltiedig. | 1. 1.("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **TPAS Scotland**<br>Grŵp cymorth cyfranogiad sy'n gweithio gyda thenantiaid, landlordiaid a sefydliadau cysylltiedig. | 1. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A |

| | |
|---|---|
| | (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |
| **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**<br>Mae'r Ganolfan yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi. | 1. cyfranogiad tenantiaid cynnwys tenantiaid |
| **Web of Science**<br>Tair cronfa ddata allweddol sy'n cwmpasu'r gwyddorau, y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau.<br>Ar gael drwy dudalen fewnrwyd adnoddau electronig y Gwasanaethau Gwybodaeth, Llyfrgell ac Archifau. | 1. ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid"); ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); "polisi tai" A (cyfranogiad NEU ymgysylltiad); ("cyfranogiad tenantiaid" NEU "ymgysylltiad tenantiaid") A ("landlord preifat" NEU "landlord cymdeithasol" NEU "cymdeithas dai"); |